



# Polisi mudo'r Deyrnas Unedig a gweithlu GIG Cymru a gofal cymdeithasol

## System fewnfudo newydd

O ganlyniad i'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, bydd rheolau symud rhydd sy'n ymwneud ag ymfudwyr o'r Undeb Ewropeaidd yn dod i ben.

Fel aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ychydig iawn o gyfyngiadau oedd ar wladolion yr Undeb Ewropeaidd yn symud i'r Deyrnas Unedig i weithio. O dan y system newydd, bydd dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a dinasyddion o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ddarostyngedig i'r un rheolau.



Bydd angen i'r rheini sydd eisiau gweithio yn y Deyrnas Unedig wneud cais am fisa 'gweithiwr medrus', a dim ond rhai rolau fydd ar agor i ymgeiswyr nad ydynt yn wladolion y Deyrnas Unedig:

- rhaid i'r swydd ei gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar gymwysterau sy'n cyfateb i Safon Uwch neu uwch; a
- rhaid i'r cyflog fod yn uwch na £25,600 neu'r "gyfradd arferol" ar gyfer y swydd (pa bynnag un sydd uchaf). Yn arwyddocaol, ni benderfynir ar y trothwy

cyflog ar sail pro rata, felly ni fyddai swyddi rhan-amser sy'n denu llai na'r trothwy yn gymwys.

Mae'r trothwy cyflog o £25,600 yn cael ei leihau yn ymarferol (trwy elfen "pwyntiau masnachadwy" y system) ar gyfer sawl categori, yn bwysicaf oll ar gyfer rolau lle ceir prinder (ac felly sydd ar y Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder), ar gyfer rolau lle mae gradd ddoethurol yn briodol neu sydd mewn pwnc STEM, ac ar gyfer hyfforddeion a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur.

Ar gyfer swyddi sydd wedi'u cynnwys ar Restr o Alwedigaethau lle ceir Prinder, bydd y trothwy cyflog yn cael ei ostwng i ddim llai na £20,480 neu o leiaf 80% o'r "gyfradd arferol", pa bynnag un sydd uchaf.

Yn ogystal, bydd fisa iechyd a gofal newydd, sy'n golygu y bydd y trothwy cyflog yn cael ei osod ar raddfa gyflog briodol y GIG ar gyfer rhai galwedigaethau. Mae hyn yn golygu, ar gyfer y rolau hynny, y gall y GIG logi gwladolion nad ydynt yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

Bydd y system newydd hefyd yn cyflwyno ffioedd i gyflogwyr gweithwyr o'r Undeb Ewropeaidd a'r gweithwyr eu hunain:

- Bydd yn rhaid i gyflogwyr dalu Tâl Sgiliau Mewnfudwyr am bob ymfudwr medrus a gyflogir trwy'r fisa gweithiwr medrus neu'r fisa iechyd a gofal, ar gost o £1,000 am y

12 mis cyntaf, ynghyd â £500 ar gyfer pob cyfnod chwe mis ychwanegol.

- Mae cost y fisa i'r gweithiwr ei hun yn is ar gyfer y fisa iechyd a gofal (£464) na'r fisa gweithiwr medrus (£610); a byddai'n ofynnol i unrhyw ddibynyddion dalu'r un peth.
- Ni fydd rhaid i bobl sy'n dod o dan y fisa iechyd a gofal a'u dibynyddion dalu'r Gordal Iechyd Mewnffudo, a fydd ym mis Hydref 2020 yn cynyddu i £624 y flwyddyn i'r rheini sydd angen talu'r ffi.

### **Sut mae hyn yn effeithio ar ddinasyddion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n ceisio gweithio yn system iechyd a gofal Cymru?**

Mae'r cynigion yn awgrymu y bydd tri grŵp o bobl yn cael eu heffeithio:

1. Y rhai sy'n dod o dan y fisa iechyd a gofal, a ddylai gynnwys yr holl broffesiynau meddygol, deintyddol a nyrsio.
2. Y rhai sy'n gymwys i gael fisa gweithiwr medrus, sydd yn ei hanfod yn cyfateb i Fand 5 neu uwch ar raddfa gyflog GIG Cymru.
3. Y rhai na fyddent yn dod o fewn y naill categori na'r llall. Lle mae gwladolion yr Undeb Ewropeaidd sy'n cyflawni'r rolau hynny ar hyn o bryd neu a allai fod wedi eu cyflawni yn y dyfodol, mae goblygiadau i'r GIG a gofal cymdeithasol.

Ar gyfer y ddau grŵp cyntaf, bydd yn bosibl recriwtio gwladolion nad ydynt o'r Deyrnas Unedig – o'r Undeb Ewropeaidd a thu allan i'r Undeb Ewropeaidd – er ei bod yn ymddangos mai'r bwriad polisi yw y dylai fod yn haws, ac yn rhatach, recriwtio trwy'r fisa iechyd a gofal na thrwy y llwybr gweithiwr medrus safonol.

Mae hyn yn golygu, o'i gymharu â'r system bresennol, y bydd yn haws (ac, i'r rhai sy'n gymwys i gael fisa iechyd a gofal, yn rhatach) i wladolion nad ydynt o'r Undeb Ewropeaidd, ond yn llawer anoddach (ac yn ddrtyach) i wladolion

yr Undeb Ewropeaidd (o'i gymharu â'r system rhyddid i symud bresennol).


Ar gyfer y trydydd grŵp, dim ond os ydynt eisoes yn breswylwyr yma trwy lwybr arall (megis y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE) y bydd yn bosibl recriwtio dinasyddion nad ydynt o'r Deyrnas Unedig.

### **Gweithwyr mudol yn GIG Cymru**

Mae dibyniaeth GIG Cymru ar wladolion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig wedi gostwng rhywfaint dros y degawd diwethaf (Ffigur 1).

Yn 2020, mae tuag 8% o staff sydd â chenedligrwydd adnabyddadwy yn rhai nad ydynt yn Brydeinwyr; mae'r rhai o'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 5% o'r staff, a'r rhai o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd 3% o'r staff.

**Ffigur 1: Gweithlu GIG Cymru (yn ôl cenedligrwydd adnabyddadwy)**



Mae hyn ymhell islaw'r cyfrannau ar gyfer y GIG yn Lloegr, lle mae cyfanswm o tuag 14% o staff yn wladolion nad ydynt o'r Deyrnas Unedig, gyda chyfran uwch o'r tu allan i'r Undeb

Ewropeaidd (8.5% o'r cyfanswm, o'i gymharu â 5.5% yn wladolion yr Undeb Ewropeaidd) (Baker, 2020).

Yng Nghymru a Lloegr, mae meddygon o dramor yn cyfrif am tua 26% o'r cyfanswm. Fodd bynnag, mae rhywfaint o wahaniaeth sylweddol rhwng cenedligrwydd (Dyfodol Byd-eang, 2018a). Mae gwladolion yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 10% o feddygon yn Lloegr, o gymharu â 6% yn GIG Cymru – sy'n golygu bod GIG Cymru yn dibynnu mwy ar ddinasyddion nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd o'i gymharu â GIG Lloegr.

Ystadau GIG a gwasanaethau ategol yw'r ail grŵp staff sy'n dangos crynodiad uwch na'r cyfartaledd o staff tramor (8%), sy'n wladolion yr Undeb Ewropeaidd yn bennaf (6.3%). Dyma'r gwasanaethau hanfodol sy'n sicrhau bod pob ysbyty a sefydliad gofal iechyd arall yn rhedeg yn esmwyth – yn bwysicach fyth yn ystod y pandemig coronafeirws.

## **Sut y gallai meini prawf cymhwysedd newydd effeithio ar y gweithlu?**

Fel y dangosir yn Nhabl 1 (tudalen 6), mae ein dadansoddiad yn awgrymu y byddai'r mwyafrif helaeth o wladolion o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n gweithio yn GIG Cymru ar hyn o bryd yn gymwys i gael fisa gweithiwr medrus a/neu fisa iechyd a gofal o dan y rheolau cyfredol.

Ond mae gwahaniaeth amlwg rhwng gwladolion yr Undeb Ewropeaidd a gwladolion nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, gyda chyfran sylweddol uwch o wladolion yr Undeb Ewropeaidd a fyddai'n anghymwys. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod gwladolion nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd yn wynebu rheolau llawer llymach ar hyn o bryd (yn ôl pob tebyg, daeth y gwladolion hynny nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd ac na fyddent yn gymwys ond sy'n gweithio i GIG Cymru i mewn i'r Deyrnas Unedig trwy lwybrau eraill, megis y llwybr teuluol).

Y grŵp mwyaf o weithwyr cyfredol a fyddai'n anghymwys o dan y rheolau cyfredol yw gwladolion yr Undeb Ewropeaidd yn y grŵp "gwasanaethau clinigol ychwanegol". Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft: gyrwyr ambiwlans, cynorthwywyr llawfeddygaeth ddeintyddol, gweithwyr cymorth gofal cymdeithasol, gweithwyr cymorth gofal iechyd / cynorthwywyr gofal iechyd, cynorthwywyr gofal cleifion, cynorthwywyr gofal brys, a chynorthwywyr fferyllol.

## **Nid yw bron i dri chwarter o'r galwedigaethau gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig yn bodoni'r trothwy cymhwyster, nac yn ennill digon i gyrraedd y trothwy cyflog**

Er mwyn asesu effaith y newidiadau, gallwn hefyd edrych ar ddechreuwyr newydd yng ngweithlu GIG Cymru (gweler Tabl 2, tudalen 6). Fel y nodwyd uchod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd twf sylweddol yn nifer y gwladolion nad ydynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd fel cyfran o ddechreuwyr newydd. Mae ein data yn dangos y byddai'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn gymwys i gael fisa iechyd a gofal neu fisa gweithiwr medrus; mae hefyd, yn wahanol i'r data ar gyfer y gweithlu cyffredinol, yn dangos y byddai'r rhan fwyaf o wladolion yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymuno nawr yn gymwys, gydag 1% yn dod o d dan y grŵp "mewn perygl" (gwladolion yr Undeb Ewropeaidd na fyddent yn debygol o fod yn gymwys i gael fisa).

## **Gofal cymdeithasol**

Mae anawsterau penodol yn ymwneud â newidiadau i'r rheolau mewnfudo ar gyfer gofal cymdeithasol gan ei bod yn anoddach i'r rheini sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol

fodloni'r meini prawf a nodwyd gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig mewn perthynas â'r cyflog a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i fod yn gymwys i gael swydd.

Canfu gwaith gan Cavendish Coalition (2020) – grŵp o sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig – nad yw bron i dri chwarter o'r galwedigaethau gofal cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig yn bodloni'r trothwy cymhwyster, nac yn ennill digon i gyrraedd y trothwy cyflog.



Mae'n werth cofio, hyd yn oed gyda rhyddid i symud presennol pobl o'r Undeb Ewropeaidd i weithio, fod gan y sector gofal cymdeithasol eisoes broblemau staffio difrifol. Mae gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn sector â chyflog isel yng Nghymru. Mae'r enillion cyfartalog mewn termau amser llawn oddeutu £17,000, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru ar draws pob swydd o £29,000 (Llywodraeth Cymru, 2020).

Mae llai na hanner y gweithlu gofal personol yn cael y cyflog byw gwirioneddol yng Nghymru. Mae cyffredinrwydd menywod yn y gweithlu hefyd yn golygu bod yr effeithiau hyn ar sail rhyw, gan gael effaith fwy sylweddol ar fenywod, sy'n cymryd rolau gofal cymdeithasol yn amlach ac yn gweithio mwy mewn amgylcheddau rhan-amser.

Yn ogystal â hyn, mae'r sector gofal cymdeithasol yn cael cyfraddau uchel o drosiant mewn staff – yn fwy felly ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir nag mewn awdurdodau lleol. Mae

ymchwil ddiweddar wedi dangos bod dros hanner y darparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru wedi nodi anawsterau wrth recriwtio i swyddi gwag, gyda dros chwarter yn nodi ei fod wedi dod yn 'anodd iawn'.

Nid yw'n eglur i ba raddau y byddai newidiadau bach i'r system fewnfudo a gynigiwyd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn datrys y broblem.

Gallai ychwanegu mathau ychwanegol o swyddi gofal cymdeithasol at y rhestr o alwedigaethau prinder fod o gymorth. Ond hyd yn oed wedyn, byddai cyflogau isel a threfniadau gwaith rhan-amser staff gofal cymdeithasol yn dal i adael darpar weithwyr yn ei chael hi'n anodd cymhwyso.

Efallai y bydd ychwanegu llwybrau fisa ychwanegol ar gyfer gweithwyr dros dro neu 'sgiliau isel' hefyd yn mynd i'r afael â'r bwch. Ond mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd hyn yn flaenoriaeth i lywodraeth y Deyrnas Unedig. Un ystyriaeth olaf yw a yw'r pandemig coronafeirws yn arwain at newid tymor hir yn y cyflenwad llafur domestig, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a yw hynny'n wir.

## Cymorth a ddarperir i gyflogwyr a gweithwyr

Gellir dysgu llawer o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, sefydliadau ledled Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac awdurdodau lleol wedi cefnogi dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i gaffael statws preswlydd sefydlog yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r cynllun wedi bod ar agor ers mis Mawrth 2019. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn cymorth i helpu dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i barhau i fyw a gweithio yng Nghymru, gan gynnwys cymorth digidol gyda'u ceisiadau, cyngor ar les a hawliau gweithwyr, a chyngor mewnffudo ar gyfer achosion a oedd yn fwy cymhleth. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cyflenwi gwybodaeth fanwl am gymorth a chefnogaeth sydd ar gael, yn gyffredinol ac ar

gyfer grwpiau unigol. Er y bu problemau gyda'r broses ymgeisio, bu'n gymharol syml i weithwyr GIG Cymru, gan eu bod mewn sefyllfa fanteisiol i allu dangos eu statws cyflogaeth.

Dangosydd defnyddiol arall o gymorth systemig posibl yw ystyried y cymorth a roddir ar hyn o bryd i ymgeiswyr fisa Haen 2 yn GIG Cymru. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gyfrifol am noddi'r holl weithwyr meddygol a deintyddol iau a hyfforddeion sydd angen fisa Haen 2. Cyflwynir hwn ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

## Bydd y mwyafrif o rolau o fewn GIG Cymru yn gymwys ar gyfer fisa iechyd a gofal a fisa gweithiwr medrus, felly bydd yr effeithiau cyffredinol yn fach ... [fodd bynnag] mae'r goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol yn fwy difrifol

Fel sefydliad noddi a gymeradwywyd eisoes a chyda system dda eisoes ar waith ar gyfer recriwtio rhyngwladol, mae GIG Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi gweithwyr newydd sy'n bodloni'r meini prawf naill ai ar gyfer y fisa gweithiwr medrus neu fisa iechyd a gofal. Ni fydd y prosesau eu hunain yn hollol wahanol i'r gweithdrefnau presennol, ac er y bydd angen rhoi sylw arbennig i sicrhau bod y system ar waith o fis Ionawr 2021, dylai'r sefydliad fod ymhlith y rhai gorau yn y wlad i gefnogi recriwtiaid newydd o 2021 ymlaen.

### Goblygiadau

Mae cyflwyno'r fisa iechyd a gofal, ac yn benodol ei gwmpas eang ar draws gwasanaethau meddygol, proffesiynol a thechnegol yn y GIG, yn awgrymu y gallai'r effeithiau penodol ar recriwtio i GIG Cymru fod

yn gyfyngedig. Bydd y mwyafrif o rolau o fewn GIG Cymru yn gymwys ar gyfer fisa iechyd a gofal a fisa gweithiwr medrus, felly bydd yr effeithiau cyffredinol yn fach. Fodd bynnag, bydd rhai swyddi'n llithro trwy'r meini prawf newydd a bydd angen i'r system gymorth bresennol ar gyfer recriwtiaid addasu i barhau i ddarparu pobl bwysig a gwerthfawr iawn i ymuno â'r gweithlu.

Mae'r goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol yn fwy difrifol. Bydd llai o swyddi'n gymwys ar gyfer y fisa iechyd a gofal neu'r fisa gweithiwr medrus, ac mae trosiant mwy y staff yn cyflwyno heriau penodol. O ystyried pwysigrwydd darpariaeth gofal cymdeithasol i'r GIG a'r dyhead am system iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Nghymru, mae'r heriau penodol sy'n dod i'r wyneb yma yn cynrychioli bregusrwydd posibl i'r system gyfan.

Pe bai Cydffederasiwn GIG Cymru a sefydliadau eraill yn dymuno newid y system i ffafrio recriwtio a chadw yn y dyfodol, mae'n debyg mai'r flaenoriaeth fydd ehangu cymhwysedd galwedigaethau sy'n bwysig yn y sector gofal cymdeithasol i'r fisa iechyd a gofal, neu, yn niffyg hynny, dylai cynyddu'r rolau sydd ar y Rhestrau o Alwedigaethau lle ceir Prinder fod yn flaenoriaeth. Byddai gostyngiad mwy cyffredinol yn y trothwy cyflog hefyd yn ddefnyddiol i'r GIG a gofal cymdeithasol. Er efallai na fydd pob un o'r rhain yn datrys y broblem benodol, gallant feddal'u'r effeithiau.

### Ffynonellau

Baker, C. (2020). **NHS staff from overseas: statistics.** Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Adalwyd o: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7783/>

Cavendish Coalition (2020a). **Submission to Migration Advisory Committee on shortage occupation list. NHS Employers** Adalwyd o: <https://www.nhsemployers.org/casestudies-and-resources/2020/07/cavendish-coalition-submission-to-migration-advisorycommittee-on-shortage-occupation-list>

Portes, J. a Forte, G. (2019). **Mudo yng Nghymru**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/mudo-yng-nghymru/>

Llywodraeth Cymru (2020). **Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo**. Adalwyd o: <https://gov.wales/the-welsh-governmentsresponse-to-the-migration-advisory-committees-call-for-evidence-shortageoccupation-list>



**Tabl 1 – Cymhwysedd fisa yn GIG Cymru, yn ôl grŵp cenedligrwydd**

<b>Blwyddyn</b>	<b>2010</b>	<b>2011</b>	<b>2012</b>	<b>2013</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>	<b>2020</b>
<b>(Cymwys)</b>	83.1 %	84.3 %	85.4 %	86.4 %	87.3 %	88.2 %	88.9 %	89.7 %	90.5 %	90.9 %	91.4 %
Gwladolyn y Deyrnas Unedig / Iwerddon	75.8 %	77.2 %	78.7 %	79.9 %	81.1 %	82.4 %	83.3 %	84.3 %	85.2 %	85.8 %	86.2 %
Gwladolyn yr Undeb Ewropeaidd	4.5 %	4.4 %	4.1 %	3.9 %	3.7 %	3.5 %	3.4% %	3.2 %	3.0 %	2.8% %	2.5% %
Gwladolyn nad yw'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd	2.7 %	2.7 %	2.6 %	2.5 %	2.4 %	2.3 %	2.3% %	2.3 %	2.4 %	2.4% %	2.6% %
<b>Ddim yn gymwys</b>	4.4 %	4.2 %	4.0 %	3.8 %	3.5 %	3.3 %	3.2% %	3.0 %	2.8 %	2.7% %	2.5% %
Gwladolyn yr Undeb Ewropeaidd	4.1 %	3.8 %	3.6 %	3.4 %	3.1 %	2.9 %	2.7% %	2.5 %	2.3 %	2.2% %	2.0% %
Gwladolyn nad yw'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd	0.3 %	0.4 %	0.4 %	0.4 %	0.4 %	0.4 %	0.5% %	0.5 %	0.5 %	0.5% %	0.5% %
Cenedligrwydd amhenodol	12.5 %	11.5 %	10.6 %	9.9 %	9.2 %	8.4 %	7.9% %	7.2 %	6.6 %	6.4% %	6.1% %

**Tabl 2 – Cymhwysedd fisa ar gyfer dechreuwy'r newydd yn GIG Cymru, yn ôl grŵp cenedligrwydd**

	Blwydd yn										
Cymhwysedd/Cenedligrwydd	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020
<b>(Cymwys)</b>											
Gwladolyn y Deyrnas Unedig / Iwerddon	82.1%	83.6%	85.8%	86.1%	86.6%	87.8%	85.1%	86.7%	87.9%	84.8%	84.8%
Gwladolyn yr Undeb Ewropeaidd	1.7%	2.8%	2.3%	2.9%	2.7%	3.1%	3.5%	2.8%	2.2%	2.0%	1.7%
Gwladolyn nad yw'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd	7.1%	7.3%	5.8%	5.2%	5.5%	4.0%	3.9%	4.2%	5.0%	5.1%	6.6%
<b>Ddim yn gymwys</b>											
Gwladolyn yr Undeb Ewropeaidd	0.8%	1.1%	0.6%	0.8%	0.7%	1.2%	2.1%	2.1%	1.3%	1.1%	1.0%
Gwladolyn nad yw'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd	0.8%	0.8%	0.9%	0.8%	0.6%	0.7%	1.0%	0.7%	0.8%	0.6%	1.0%
Cenedligrwydd amhenodol	7.6%	4.3%	4.6%	4.1%	3.8%	3.0%	4.4%	3.6%	2.9%	6.4%	4.8%

## Rhagor o wybodaeth

Darllenwch yr adroddiad llawn: Portes, J., Oommen, E. a Johnson, C. (2020). [Polisi mudo'r Deyrnas Unedig a gweithlu GIG Cymru a gofal cymdeithasol](#). Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr Craig Johnson**

+44 (0)29 2087 5345

[craig.johnson@wcpp.org.uk](mailto:craig.johnson@wcpp.org.uk)

### Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WCfPP

